

UNLIMITED...

Gwneud cais am Brif Gomisiwn 2019

Cyflwyniad

Ym mis Mawrth 2019 byddwn yn dyfarnu nifer o gomisiynau i ddatblygu, cynhyrchu ac arddangos prosiectau uchelgeisiol gan artistiaid eithriadol sy'n anabl a chwmnïau ar draws pob llwyfan. Gellir gwneud cais am y rhain o fis Medi 2018 ymlaen.

Gwybodaeth am 'Unlimited'

Mae 'Unlimited' yn rhaglen gomisiynu, sy'n cefnogi prosiectau creadigol gan artistiaid anabl a chwmnïau mewn ffurfiau celf yn cynnwys celfyddydau perfformio, llên, perfformiad, paentio, cerflunio, gweithiau cyhoeddus, ffotograffiaeth, gwaith celf digidol, gosodiadau, ffilmiau a mwy. Mae 'Unlimited' am newid y canfyddiadau am bobl anabl drwy gomisiynu gwaith newydd, arloesol ac o ansawdd uchel. Rhwng 2013 a 2016, fe wnaethon ni gefnogi dros 2,300 o ddyddiau perfformio ac arddangosfeydd gan artistiaid anabl, gwaith gafodd ei weld gan dros 130,000 o bobl.

Roedd 'Unlimited' yn rhan o Olympiad Celfyddydol Llundain 2012, ac yn 2013 dyfarnwyd cyllid i sefydliadau 'Shape Arts' ac 'Artsadmin' oddi wrth Gyngor Celfyddydau Lloegr i gyflenwi'r rhaglen. Caiff y cyfnod hwn o waith 'Unlimited' (2016 – 2020) ei gefnogi gan gyllid oddi wrth Gyngor Celfyddydau Lloegr, 'Spirit of 2012', Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Cyngor Prydeinig.

Pwy sy'n gallu gwneud cais?

Mae yna anogaeth ar artistiaid anabl sydd wedi eu sefydlu'n broffesiynol a chwmnïau sy'n cynorthwyo gwaith ymhlith yr anabl ac wedi eu lleoli yng Nghymru a Lloegr i wneud cais. Ystyr 'wedi eu sefydlu' ydy'r artistiaid a chwmnïau sydd wedi arddangos eu gwaith yn gyhoeddus, ac wedi derbyn ymateb cadarnhaol i hynny.

Mae 'Shape' ac 'Artsadmin' yn defnyddio diffiniad cynhwysol o anabledd yn seiliedig ar y dull '**Social Model/Model Cymdeithasol**' o fynd o'i chwmpas hi, sydd, drwy ganolbwyntio ar y rhwystrau osodir gan gymdeithas, yn cynnwys pob nam corfforol, synhwyrol ac anweladwy, anabledd dysgu, iechyd meddwl, a chyflyrau niwro-ddargyfeiriol a gorflinder. Os ydych chi'n credu eich bod ymhlith y rhain, a/neu wedi cael profiad o rwystrau rhag mynediad, rydyn ni'n eich gwahodd i wneud cais.

Am ba fath o waith rydyn ni'n chwilio?

Rydyn ni'n dymuno comisiynu **gwaith newydd** allai fod yn nyddiau cynnar ei greu neu sydd wedi cael peth ymchwil a datblygiad eisoes. Rydyn ni'n chwilio am waith

Delivered by



**ARTS
ADMIN.**

Funded by



Supported using public funding by
**ARTS COUNCIL
ENGLAND**



mewn unrhyw ffurf o gelfyddyd sydd yn: arloesol, rhagorol ac yn cael ei arwain gan artistiaid anabl. Am y gelfyddyd, nid am yr anabledd mae 'Unlimited' yn chwilio; gallai peth gwaith adlewyrchu anabledd, gallai arall beidio.

Mae'r cyllid hwn ar gyfer ymchwil a datblygu (R & D), fodd bynnag rhagwelir y bydd canlyniadau'r ymchwil a datblygu'n cael ei rannu neu arddangos mewn rhyw ffurf neu'i gilydd fel rhan o bob prosiect.

Gall y gwobrau hyn ariannu tri cham o'r gweithgaredd:

1. Ymchwil a Datblygiad (opsiynol – efallai byddwch eisoes wedi cwblhau hyn)
2. Creu a Chynhyrchu
3. Llwyfannu a Chyflwyno

Rhaid i'r comisiynau gael eu cwblhau a bod ar gael i deithio neu eu harddangos erbyn Gwanwyn 2020, ac i gwblhau eu teithio dan gynllun 'Unlimited' erbyn Medi 2020. Dylai gwaith wedi ei gomisiynu anelu i gal ei arddangos mewn amrywiaeth o leoliadau drwy'r DU. Hefyd, ystyrir comisiynau ar gyfer Gwyl 'Unlimited yn chanolfan y 'Southbank Centre', os yn addas, ac mewn gwyliau eraill sy'n dathlu Gwaith 'Unlimited' (yn y DU ac efallai'n rhyngwladol). Yn ychwanegol, gobeithir bydd rhai gweithiau o ddiddordeb i hyrwyddwyr rhyngwladol ac yn teithio gyda chefnogaeth Y Cynfor Prydeinig..

Os hoffech arbrofi gyda syniad cyn ymrwymo o gomisiwn llawn, rydyn ni'n argymhell i chi wneud cais am un o'r Prif Wobrau Ymchwil a Datblygu.

Meini Prawf Allweddol:

- wedi ei arwain gan anabledd
- ansawdd, arloesedd ac uchelgais
- hanes blaenorol cadarn o greu gwaith a chyrraedd cynulleidfaoedd
- cydweithredu a phartneriaethau sy'n bodoli (gall rhain gynnwys rhai heb fod â chysylltiad â chwmnïau/artistiaid/cynhyrchwyr ym maes anabledd)
 - hyblygrwydd/yn gallu addasu er mwyn sicrhau gall y gweithiau ymgysylltu gydag amrediad o leoliadau/graddfeydd
- yr artist arweiniol neu gwmni yn byw yn Lloegr

Gobeithiwn allu cefnogi ystod o syniadau o ran ffurf y gelfyddyd, graddfa a lleoliad – ar draws yr holl gomisiynau.

Gwobrau Partneriaeth

Ar gyfer y rownd hon, mae 'Unlimited' mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau sy'n darparu cyllid ar gyfer gwobrau ychwanegol o'r enw Gwobrau Partneriaeth. Mae yna Wobrau Partneriaeth ar gael yn y Prif Wobrau Ymchwil a Datblygu a'r Prif Gomisiynau. Mae gwneud cais am Wobr Partneriaeth yn opsiynol – gall ymgeiswyr ddewis cael eu hystyried am un neu ragor o'r rhain ar y ffurflen gais os ydyn nhw'n dymuno hynny.

Dyma'r Gwobrau Partneriaethau sydd ar gael ymhlith y Prif gomisiynau Ymchwil a Datblygu:

Comisiwn Partneriaeth 'Farnham Maltings'

Bwriad y comisiwn gan Farnham Maltings ac 'Unlimited' ydi ariannu prosiect sy'n rhoi ymatebion newydd a chyffrous i gyd-destun teithio ardaloedd gwledig a neuaddau pentref, ac a fydd yn rhoi'r gynulleidfa yng nghanol eu proses artistig.

Gall Farnham Maltings ddarparu cyngor arbenigol ac adnoddau i'r rhai gaiff wahoddiad i wneud Cais Llawn am wobwr partneriaeth Farnham Maltings. Rhagwelir y bydd y Gwaith comisiwn yn teithio i o leiaf 3 ardal wledig yn ystod y prosiect.

Dylai prosiectau i'w hystyried ar gyfer y wobwr hon hefyd gwrdd â'r meini prawf canlynol:

- i fod ar ffurf digwyddiad a/neu berfformiad
- yn addas i deithio i neuaddau pentref ac ardaloedd gweledig
- a bod ag ymateb cynulleidfa ac ymglymiad yng nghanol eu proses greadigol
- yn gwneud cais am hyd at £25,000

Gwobr Ymchwil a Datblygu Partneriaeth 'Wellcome Collection'

Caiff y wobwr ei chefnogi gan 'Wellcome Collection' ac 'Unlimited' a'i dyfarnu a gyfer ymchwil a datblygu sy'n herio'r modd rydyn ni'n meddwl a theimlo am iechyd. Bydd y wobwr yn cefnogi proses ymchwil a datblygu fydd yn cyfuno profiad byw o iechyd, ymchwil hanesyddol a gwyddoniaeth gyfoes biofeddygol, yn unol â chenhadaeth i gysylltu gwyddoniaeth, meddygaeth, bywyd a chelf.

Bydd 'Wellcome Collection' yn cynnig cymorth ychwanegol drwy roi mynediad i'w archifau ac yn hwyluso perthynas gydag ymchwilwyr iechyd. Gallai artistiaid ddefnyddio'r wobwr i archwilio safbwyntiau o'u iechyd neu anabledd eu hunain, neu gymryd agwedd cyfan gwbl wahanol at y pwnc.

Dylai prosiectau sydd am gael eu hystyried ar gyfer y wobwr hon hefyd gwrdd â'r meini prawf canlynol:

- Arddangos diddordeb mewn archwilio gwyddoniaeth ac ymchwil seiliedig ar iechyd a/neu gasgliadau ac archifau yn ymwneud â iechyd
- Ystyried yn greadigol agweddau amrywiol, efallai rhai heriol, sy'n ymwneud â iechyd
- Sy'n gwneud cais am hyd at £80,000

Am faint o swm galla i ofyn amdano?

Bydd Prif Wobrau Comisiynau 'Unlimited', yn amrywio rhwng **£20,000** a **£80,000**, yn ôl eu graddfa a'u huchelgais, gyda'r angen am o leiaf 10% o arian cyfatebol. Disgwylir i ymgeiswyr gynnwys costau mynediad a mentora yn eu cais. Rhagwelir ariannu rhwng pump a deg gwaith drwy eu comisiynu.

Sut i wneud cais:

Mae dwy ran i'r broses ymgeisio:

1. Mynegi Diddordeb
2. Gwneud Cais Llawn, dim ond y rhai sydd ar rhestr fer

Gwneud cais ar-lein ar: weareunlimited.org.uk/apply-to-unlimited/
Mae cymorth mynediad ar gael ar gyfer pob cais, gan gynnwys fformatau amgen a chymorth wedi ei deilwra.

Amserlen y Comisiynu

- **Dydd Iau 13 Medi 2018:** porth ceisiadau Mynegi Diddordeb yn agor
- **Dydd Llun 29 Hydref 2018, 12pm:** dedlein i gynigion Mynegi Diddordeb
- **Dydd Llun 3 Rhagfyr 2018:** Cyhoeddi'r rhestr fer, agor y porth i Geisiadau Llawn
- **Dydd Llun 11 Chwefror 2019, 12pm:** dedlein olaf i dderbyn Ceisiadau Llawn
- **Mawrth 2019:** cyhoeddi penderfyniadau ar pwy sy'n derbyn cyllid
- **Mai 2019:** y prosiectau'n cychwyn
- **Gwanwyn 2020 – Medi 2020:** comisiynau'n teithio/ cael eu cyflwyno

Mynegi Diddordeb

Byddwch angen cyflwyno:

- Atebion i bedwar cwestiwn ynglŷn â'ch cymhwyster i wneud cais
- Gwybodaeth sut i gysylltu â chi ac enw'r prosiect, yr artist(iaid) a chynhyrchedd ar gyfer y prosiect
- Trosolwg byr o'r prosiect (uchafswm 80 gair)
- Disgrifiad o'r prosiect (uchafswm 400 gair)
- Bras-amcan o'r swm byddwch yn gofyn amdano oddi wrth 'Unlimited', os byddwch ar y rhestr fer
- Bywgraffiad byr o'r artist/cwmni arweiniol a'r partner cynhyrchu (100 gair yr un)
- Opsiynol: deunydd cefnogol megis delweddu, fideo, awdio neu ddogfennau, perthnasol i'r prosiect arfaethedig neu'n dangos gwaith blaenorol.

Cais Llawn

Caiff y rhai sydd ar y rhestr fer wahoddiad i gyflwyno Cais Llawn a byddan nhw'n derbyn canllawiau wedi eu teilwra gan Dîm 'Unlimited' am y meini prawf cysylltiedig â'u syniad am brosiect. Os cewch wahoddiad i gyflwyno Cais Llawn, yna bydd angen i chi ddarparu'r canlynol:

- Enw'r prosiect, yr artist(iaid) a'r cynhyrchedd sydd ynghlwm â'r prosiect
- Crynodeb o'r prosiect (dim mwy na 200 gair)
- Cynnig sy'n rhoi manylion y prosiect a'i addasrwydd ar gyfer 'Unlimited' (dim mwy na 1000 gair)
- Manylion gweithgaredd Ymchwil a Datblygu (opsiynol, uchafswm 500 gair)
- Manylion gweithgaredd Creu a Chynhyrchu (opsiynol, uchafswm 500 gair)
- Manylion gweithgaredd Ymchwil a Datblygu (opsiynol, uchafswm 500 gair)
- Manylion gweithgaredd Llwyfannu ac Arddangos (opsiynol, uchafswm 500 gair)
- Cyllideb fanwl
- Rhagor o wybodaeth am fynediad ar gyfer artistiaid a chynulleidfaoedd (dim mwy na 200 gair)
- Bywgraffiadau llawn neu CV ar gyfer yr artist(iaid) arweiniol a'r cynhyrchedd/wyr
- Deunyddiau atodol ar ffurf delweddu, fideo, awdio, neu ddogfennau, perthnasol i'r prosiect dan sylw neu'n dangos gwaith blaenorol.

- Cymeradwyaeth cymheiriaid a/neu sylw yn y wasg: llythyr argymell a/neu sylw yn y wasg (dim mwy na 2 dudalen)

Darllenwch ein hadran Cwestiynau Mynych (FAQ) am ragor o wybodaeth gan gynnwys sut i wneud cais drwy wahanol fformatau.

Y Broses Ddethol

Caiff pob cais Mynegi Diddordeb cymwys ei asesu gan banel fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r cyllidwyr ac unigolion wedi eu dewis ymlaen llaw drwy broses ceisiadau agored. Bydd anabledd yn cael blaenoriaeth gan y panel. Am y wybodaeth ddiweddaraf am y Panel Dewis, ewch i'r wefan

weareunlimited.org.uk/apply-to-unlimited/selection-panel

Os hoffech chi gael y wybodaeth hon mewn fformat arall, yna gofynnwch i ni, os gwelwch yn dda.

Os oes gennych awydd gofyn cwestiynau eraill am fynediad, wedi i chi ddarllen yr holl wybodaeth, rhowch wybod i ni drwy gysylltu â Clera Giraud at

clara@artsadmin.co.uk neu ar y ffôn ar 020 7247 5102.